Cofnodion o Bwyllgor Cyllid Cyngor Tref Llandeilo a gynhaliwyd ar ddydd Mercher 8fed Mawrth 2006 yn Neuadd y sir, Llandeilo am 8 .00pm

Presennol: Maer Colin Jenkins, Cyng Pam Steane Price, Dirprwy Faer Cyng Hugh Towns, Cyng Fran Murphy, Cyng Ieuan Gwyn, Cyng Richard Wallace, Cyng Roy Davies, Cyng Ros Bellamy, Mr Roger Phillips Clerc y Dref, Mr Christopher Plummer, Swyddog Ariannol, Mr Des Davies, Swyddog Technegol

Ymddiheuriadau : Cyng Paul Faulkner, Cyng Charlotte Leadbeater.

6727 / Mawrth/ 06 Anfonebau i'w talu.

HUGH WILLIAMS (Ffioedd ar gyfer paratoi les Neuadd y Sir) Cynigiwyd Cyng Colin Jenkins, eiliwyd Cyng Ros Bellamy	£ 397.50
CLERC (Catris inc a phostio) Cynigiwyd Cyng Ros Bellamy, eiliwyd gan Cyng Richard Wallace	£ 27.73
AELODAETH CYFAILL O FFEDERASIWN FFERMYDD A GERDDI TREFOL (Fel y cytunwyd Cofnod Rhif 6691 / Ionawr / 06)	£ 85.00
CSC (Costau goleuo rhodfa) Cynigiwyd gan Cyng Ieuan Gwyn, eiliwyd Cyng Colin Jenkins	£ 259.33
WCVA (Ychwanegu ar gyflogau staff mis Chwefror)	£145.94
WCVA (Ffi Weinyddol Chwefror) Cynigiwyd y ddau gan Cyng Ros Bellamy, eiliwyd gan Cyng Ieuan Gwyn	£ 34.66
CSC (Profi mannau angori'r Goleuadau Nadolig)	£ 950.00

Argymhellwyd fod y Clerc yn ysgrifennu at CSC yn ymholi sail yr adroddiad a dderbyniwyd ar brofi'r mannau angori. Doedd yr adroddiad ddim yn dangos y newidiadau i'r mannau angori a wnaed gan y Cyngor. Mynegwyd pryder hefyd ynglŷn â chyn lleied o amser a dreuliwyd gan yr archwilwyr wrth eu gwaith. Hefyd gofynnwyd i'r Clerc hysbysu'r adran Gyllid na fyddai'r tâl sy'n weddill yn cael ei dalu hyd nes fydd y mater yn cael ei ddatrys.
Cynigiwyd gan y Cyng Hugh Towns, eiliwyd gan Cyng Ieuan Gwyn

6728 / Mawrth / 06 Incwm a dderbyniwyd

HYSBYSEBION Y RHAGLEN TÂN GWYLLT	£ 70.00
LLOG Y CYFRIF CYFREDOL	£ 1.70

6729 / Mawrth/ 06 Balansau'r cyfrif
Cofnodwyd a **Derbyniwyd** yr adroddiad canlynol o gyllid y Cyngor:

LTC CYFRIF CYFREDOL	£ 5,940.62

LTC CYFRIF CYNILO (28.2) £34,187.24
LTC CYFRIF TREULIAU'R MAER (20.2) £ 1324.68

6730 / Mawrth / 06 Materion Ariannol Eraill.

1 Asesiad Risg Ariannol
Esboniodd y Swyddog Ariannol i aelodau yr amrywiol gategorïau o risg.
Cynigiwyd gan y Cyng Pam Steane Price y dylid argymell yr asesiad i'r Cyngor Llawn. Eiliwyd hyn gan Cyng Ros Bellamy.

2. Cofrestr Ased
Bydd y Maer yn cynnal archwiliad o'r gofrestr ased ac yn adrodd yn ôl yng nghyfarfod nesaf o'r Cyngor Llawn.

6731 / Mawrth /06 Ceisiadau am Gymorth Ariannol

Cytunwyd y dylid cefnogi'r mudiadau canlynol :-

1.	Cymdeithas Gyrwyr Anabl – Grŵp Llandeilo	£ 100.00
2.	Henoed Llandeilo	£ 100.00
3.	Home Start – Dinefwr	£ 100.00
4.	Cymorth i Ferched Caerfyrddin	£ 100.00

Penderfynwyd y dylid gadael yr cais oddi wrth yr Urdd tan y flwyddyn ariannol newydd.
Penderfynwyd na fyddai'r Cyngor yn cefnogi'r cais am arian oddi wrth yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol i gefnogi'r Ffair Goed oherwydd diffyg arian.
Cynigiwyd gan y Cyng Hugh Towns ac eiliwyd gan y Cyng Colin Jenkins.

6732 / Mawrth / 06 Tendr ar gyfer y prosiect Llwybr Treftadaeth

Mae hyn er mwyn codi a gosod y byrddau gwybodaeth, pyst cyfeirio a phlaciau wal. Mae'r tendrau fel a ganlyn :-

1. Prospect Construction £ 3365.00 (heb TAW)

2 Dilwyn Thomas Builder £ 1270.00 (heb TAW)

3 Alun Davies Contractors penderfynodd beidio â chyflwyno tendr.

Cynigwyd gan y Cyng Cllr Ros Bellamy ac eiliwyd gan Cyng Richard Wallace y dylid rhoi'r tendr i Mr Dilwyn Thomas. Pawb o blaid.

6733 / Mawrth / 06 Gohebiaeth

Llythyr oddi wrth "Regan Norris Partnership" yn amlinellu eu Cynnig o Ffi ar gyfer y gwaith addasu yn Neuadd y Sir. Bydd y rhain yn 11% o gyfanswm y gost a bydd disgwyl iddo gael ei dalu mewn camau.
Cynigiwyd gan y Cyng Ieuan Gwyn y dylai'r ffioedd gael eu hargymell i'w derbyn gan y Cyngor Llawn.
Eiliwyd gan y Cyng Ros Bellamy.
Mae'r gweithgor wedi cyflwyno cais cynllunio i CSC ar gost o £120. Cynigiwyd gan y Cyng Fran Murphy ac eiliwyd gan y Cyng Richard Wallace fod y swm yn cael ei gyflwyno'n wrthrychol fel anfoneb i'w dalu.

Daeth y cyfarfod i ben am 9.20 pm.



Clerc y Dref Neuadd y Sir Stryd Caerfyrddin Llandeilo SA19 6AF 01558-823850 clerk@llandeilo.gov.uk
Town Clerk Shire Hall Carmarthen Street Llandeilo SA19 6AF 01558-823850 clerk@llandeilo.gov.uk